

Dysgu yn yr Oes Digidol

ADPA4001C

Madeleine Mackenna Manley

2304333

E-Portffolio

Table of Contents

<i>Traethawd 300 gair ar sgiliau hanfodol ar gyfer astudio a chyflogaeth yn y diwydiannau creadigol.....</i>	<i>3</i>
<i>Tasg 2- Adolygiad Sioe fyw 800 gair.....</i>	<i>4</i>
<i>Tasg 2 – Traethawd adfyfyriol ar dosbarth 800 gair.....</i>	<i>7</i>
<i>Llyfryddiaeth.....</i>	<i>Error! Bookmark not defined.</i>

Dysgu yn yr Oes Digidol

ADPA4001C

Madeleine Manley

2304333

Portffolio

Traethawd 300 gair ar sgiliau hanfodol ar gyfer astudio a chyflogaeth yn y diwydiannau creadigol.

Mae angen nifer o sgiliau gwahanol arnom ni er mwyn i ni lwyddo yn y Brifysgol ac yn y bywyd proffesiynol. Byddaf yn siarad yn y ddogfen yma yn gryno rhai o'r sgiliau yma sydd yn berthnasol

Mae cymryd nodiadau yn wahanol i bawb ac mae ffeindio ffordd i grynhoi gwybodaeth yn hanfodol wrth astudio. Ond mae'n bwysig hefyd i ffeindio ffordd sydd yn gweithio i chi fel unigolyn. Mae'n haws dewis darnau bach sydd yn gwneud i chi feddwl amdano a'i ddysgu er mwyn astudio yn effeithiol. (Royale, n.d.)

Er bod ymchwil yn dod ar draws fel rhywbeth hawdd, mae'n dechneg bydd rhaid i bob un darganfod. Mae'n bwysig ar gyfer ysgrifennu darnau mawr o waith ac yn enwedig wrth gyfeirio at wefannau a darganfod sut i ffeindio'r wybodaeth sydd angen er mwyn gallu manteisio ar bob cyfle. (Royale, n.d.)

Mae hunanwerthuso yn sgil sydd yn helpu ni i gynyddu hunan ymwybyddiaeth ac yn gorfodi ni i wella. Yn ogystal ag helpu rheoli amser a hunan datblygiad. Felly, mae hwn yn sgil angenrheidiol a fydd yn helpu ni i fod yn fwy cyflogadwy. (Cottrell, 2021)

Yn bendant yn y diwydiant creadigol, sgil bydd cyflogwr yn edrych am yw eich gallu chi i newid i amgylcheddau gwahanol yn gyflym ac yn gyfforddus. Yn ôl Escape Studios (Studios, 2022), mae'r diwydiant yn tyfu mor gyflym all fod 900,000 o swyddi newydd creadigol erbyn 2030.

Felly, bydd cael y sgiliau cywir yn helpu'n fawr i ni i astudio yn well, ac yn fwy effeithiol ac yn enwedig, bydd y sgiliau yma yn benodol yn helpu ni i fod yn fwy cyflogadwy yn y diwydiant perfformio.

Dysgu yn yr Oes Digidol

ADPA4001C

Madeleine Manley

2304333

Portffolio

Tasg 2- Adolygiad Sioe fyw 800 gair

Yn ddiweddar ges i'r fraint o fynd i weld 'Hamilton' yn Llundain yn y Victoria Palace Theatre. Er nad oedden i yn 'The Room Where it Happens' dwi'n gwybod fy mod i wedi clywed dros 20,000 o eiriau wedi'u rapio am fywyd dyn a wnaeth helpu adeiladu'r Unol Daleithiau. Gyda themâu o wleidyddiaeth, hanes, cariad, angerdd a brad. Dwi'n credu taw Hamilton yw'r un i wyllo yn 2024. Ac yn ffodus, mae Hamilton ar daith yn dechrau tuag at ddiwedd y flwyddyn felly, peidiwch â thaflu eich shot, a phrynwch dicedi cyn iddynt werthu allan!

Wrth gwrs, mae Lin-Manuel Miranda wedi bod yn ysgrifennu Sioeau Gerdd ers 2002 ond roedd proses ysgrifennu Hamilton yn wahanol iawn i unrhyw sioe gerdd arall. Ar wyliau yn 2008 darllenodd llyfr Ron Chernow, bywgraffiad Alexander Hamilton oedd. Wrth ddarllen y llyfr roedd Miranda wedi synnu at debygrwydd plentynod Hamilton i blentynod rhai rapwyr y byd. Felly, dechreuodd ef ysgrifennu rap am fywyd Hamilton, ac ar ôl flwyddyn, roedd can gyda nhw, sydd nawr yn fwy adnabyddus fel 'My Shot' o'r sioe eu hun. Ychydig yn llai na ddeng mlynedd yn ddiweddarach agorodd Hamilton ar Broadway gyda Lin-Manuel Miranda yn chwarae rôl Alexander Hamilton. (Anon., 2021)

Wrth gerdded i mewn, roedd gweithwyr y theatr yn gwisgo i gyd yn wyrdd, roedd y carped yn wyrdd ac roedd y theatr eu hun yn grand iawn. Roedd chandelier enfawr wrth y bar, roedd addurniadau aur ar y waliau a'r to. Roedd y seddi yn gyfforddus, ac roedd pawb a oedd y gweithio yn y theatr yn garedig iawn. Roedd pob golau yn y theatr gyda chysgod

lamp gwydr gyda phatrymau arnyn nhw. Roedd y set yn hollol wahanol i'r theatr ond mae'r stori yn mynd ymlaen i ddangos cyfoeth Hamilton erbyn y diwedd. Wnes i ystyried fod y set yn cynrychioli bywyd Alexander Hamilton cyn iddo ymladd yn y chwyldro Americanaidd, a'r theatr yn cynrychioli ei fywyd ar ôl.

Wrth wneud ymchwil ar y dylunydd set, wnes i edrych am yr ysbrydoliaeth a chafodd David Korins am Set Hamilton. Roedd y set yn seiliedig ar dŷ Hamilton, pabell Washington o'r chwyldro Americanaidd, a ddaeth lan gyda rhyw drosiad Theatraidd. (Sullivan, 2016) Mae'r set yn Hamilton yn atgoffaol o safle adeiladu neu gwch, y trosiad oedd bod cymeriadau'r sioe wedi 'adeiladu' America ac yn llythrennol, mae rhannau o'r sioe wedi seilio yn dociau Efrog Newydd. Mae newidiadau yn y set wrth i'r amser mynd yn ei flaen yn y sioe, mae'r propiau ar y waliau yn newid o reiffiau i lyfrau a mapiau ac mae'r waliau eu hun yn tyfu 8 troedfedd rhwng yr act gyntaf ar ail act.

Fy hoff ddarn o'r set, a'r darn mwyaf nodedig o'r set yw'r revolve. Mae dwy ran i'r revolve yn Hamilton ac eto, yn drosiad theatraidd. Mae'n helpu'r stori i fynd yn ei flaen ond hefyd yn mynd am yn ôl yn Satisfied wrth i'r cast ail fyw golygfa 'helpless' lle mae'r holl gast gwir yn gwneud 'rewind' a hefyd wedyn yn dangos i ni'r golygfeydd 'A Winters Ball' a 'Helpless' o bersbectif cymeriad arall, Angelica Schuyler. Mae hefyd yn ddarn mawr yn y gan 'Hurricane' gan ei fod yn symboleiddio'r 'Hurricane' a'r cast o gwmpas Alexander Hamilton yn defnyddio props i greu effaith ardderchog o gorwynt go iawn.

Yn sôn am y ddau gan yna, mae'r goleuo yn 'Satisfied' a 'Hurricane' yn ardderchog. Roedd y goleuo yn yr holl sioe yn symbolaidd ar gyfer teimladau'r cymeriad oedd yn canu. Yn Satisfied, aeth y golau yn las yn syth wrth Angelica dechrau canu, gan ei bod hi yn drist bod Hamilton wedi priodi. Roedd golau sbot ar Angelica yr holl fordd trwy wrth iddi ganu, ond yn yr atgofion roedd y golau yn las. Yn ychwanegol, wrth i Angelica ddweud 'At least I keep his eyes in my life', newidodd y golau i edrych fel llygaid o'i chwmpas ar y revolve.

Yn 'Right Hand Man' sef dechrau'r chwyldro a'r ymladd, mae'r golau yn creu awyrgylch hollol wahanol, mae'r golau yn las, ac mae effaith yn cael ei ddefnyddio i edrych fel mor, a thonau. Geiriau dechrau'r gan yma yw, 'got troops on the water, 32 thousand troops in New York harbour'. Yn debyg, yn Hurricane, mae'r golau yn las, gan fod Hamilton yn cywilyddio am ei gamgymeriadau. Felly, drwy gydol y sioe, hyd yn oed os dim ond newid golygfa maen nhw'n ei wneud, mae'r goleuadau yn creu'r awyrgylch mwyaf effeithiol yn Hamilton.

Ymlaen at yr actio, roedd pob un person yn y cast wedi'u chastio'n arbennig ac roedd y cast yn portreadu'r cymeriadau yn effeithiol iawn, hyd at y pwynt yr oedd yn edrych yn naturiol. Roedd y cymeriad George Washington wedi sefyll allan i fi, a chafodd ei chwarae gan Dom Hartley-Harris. Roedd pob symudiad a phenderfyniad mynegiant wynebol ac osgo yn wych, ac roedd ei lais yn arbennig. Ar y noson es i, gaethon ni rhywun yn chwarae

Angelica nad oedd yn y programme, Allyson Ava Brown oedd Angelica 2022-2023 a hi oedd yn chwarae am y noson. Roedd Brown yn wych, wrth ystyried fod ei rhan hi yn fawr iawn, a'i bod hi heb fod ar y llwyfan yna am fisoedd. Yn Ogystal, roedd Aaron Burr, Simon Anthony Roden yn anhygoel, yn enwedig wrth berfformio 'Wait for it', roedd ei lais yn anghredadwy, ac yn sioc enfawr gan fod Burr ddim yn canu llawer cyn hynny. Hefyd, mae'r defnydd o aml-gymeriadau weithiau yn gallu fod yn ddryslyd. fe wnaeth pob un o'r cast a oedd yn ail-gymeriadu wedi ei acenion, osgo, llais, a phersonoliaeth wrth gwrs.

Felly, roedd y cynhyrchiad yma yn anhygoel, a dwi ddim yn synnu ei fod mor llwyddiannus ar draws y byd, a dwi ddim eto yn synnu ei fod wedi ennill 11 Tony y flwyddyn aeth ar Broadway. Wnes i wir mwynhau, ac yn bendant fe wnes i deimlo pob un teimlad posib wrth wyllo. Byse ni hyd yn oed yn mynd mor bell a dweud ei fod llawer gwell na roedden i'n disgwyl.

Dysgu yn yr Oes Digidol

ADPA4001C

Madeleine Manley

2304333

Portffolio

Tasg 2 – Traethawd adfyfyriol ar dosbarth 800 gair

Yn y misoedd diwethaf dwi wedi bod yn derbyn hyfforddiant gwych yn WAVDA. Y peth rydw i wedi sylwi gwella mewn mwyaf yw fy ngwersi unigol canu. Ers dechrau'r tymor, rydw i wedi bod yn mwynhau gweithio gyda Kieffer Jones. Rydw i wedi defnyddio llwyth o dechnegau gwahanol sydd wedi fy helpu gymaint ag sydd wedi cryfhau fy llais a chynyddu fy hyder. Yn yr wythnosau diwethaf, dwi wedi bod yn gweithio ar 3 gan ar gyfer asesiad sef, 'The Wizard and I' o Wicked, 'To My angels' o SuperYou, a 'Summertime' o Porgy and Bess.

I ddechrau fe wnes i ganu 'The Wizard and I', dwi wedi bod yn canu'r gan yma ers bron blwyddyn nawr, a dwi byth wedi canu'r can yma mor hyderus â nawr. Mae dal angen Gwaith arno fe, ond mae llawer gwell nag oedd e fis yn ôl. Yr un peth dwi'n stryglo gydag yw'r newid cywair, o 'and I'll stand there with the Wizard', gan ei fod yng nghanol fy llais, yn y trosiad o lais frest i ben, mae'n anoddach i mi ddal y nodyn ac wedyn mynd lan am eiliad eto. Mae Kieffer wedi cyflwyno techneg ymarfer o wthio fy ngên i lawr wrth ganu er mwyn agor fy ngheg a gwthio fy nhafod lan at dop fy ngheg wrth ymarfer. Wrth ailadrodd y technegau yma yn y gwersi gyda Kieffer mae fy llais nawr yn fwy agored i dechnegau arall ac yn fwy cyfarwydd i'r teimlad yn fy llais. Gan fod y darn yma yn 'belt' fe wnes i ymchwil ar dechnegau cywir i ddefnyddio, a'r un cyntaf yw agor y geg, gan nad oedden i yn gyfarwydd ag agor fy ngheg gymaint, ac achos yr ymarfer yna dwi nawr yn fwy cyfforddus gyda beltio. (MasterClass, 2022) (Anon., 2022)

Y gan nesaf dwi wedi bod yn gweithio arno yw 'To My Angels' o SuperYou. Mae hwn yn gan fyddai ddim fel arfer yn canu, a dwi wir wedi mwynhau dysgu can sydd allan o fy 'comfort zone'. Mae hwn yn gospel iawn, sydd yn ddiddorol ac yn wahanol. Gyda'r can yma, ar y diwrnod yna, cyflwynodd Kieffer techneg ddiddorol arall, lle dwi'n defnyddio fy nghorff fel cefnogaeth a thynnu fy mhengliniau i mewn ar gyfer mwy o gefnogaeth. Hwn yw fy hoff dechneg gan fy mod i yn mynd o stad gyfforddus ac ymlaciol i un fwy tense i helpu cyrraedd y nodau uwch. Dwi hefyd yn stryglo gyda'r nodau hirach mwy na'r nodau byr, yn enwedig yn y rhannau lle mae'r frawddeg yn un hir. Mae'r dechneg yma yn tynnu'r straen oddi wrth fy llais ac yn ffocysu ar ddarn arall o'r corff. Hefyd, techneg arall yw tynnu'r tafod allan o'r geg gyda bysedd o'i dan, (Joubert, 2023) er mwyn cael teimlad y nodyn wrth ymarfer ac wedyn eu trosglwyddo i lan yn y geg wrth berfformio gyda'r un teimlad. Mae hwn llaw yn llaw gyda'r coesau a sefyll yn syth wrth agor y corff a'r frest, wedi cryfhau fy llais wrth ganu hwn. Yn ogystal, rydyn ni wedi bod yn edrych ar nodau uchel wrth ddefnyddio vibrato. Sialens arall rydw i wedi concro gyda help Kieffer, sydd hefyd wedi effeithio ar ganeuon eraill rydw i wedi bod yn gweithio arno.

Ymlaen at gan olaf y sesiwn, Summertime. Rydw i wedi mwynhau gweithio ar y gan yma, mae elfennau o opera ynddo fe. Gan fod canwyr opera yn defnyddio laryncs isel (Anon., 2021) ac rydw i yn fwy cyfarwydd a defnyddio laryncs uchel. Y sialens fwyaf yn y gan yma yw'r naid ar y diwedd rhwng dau octif. Dwi dal i weithio ar hwn, gan fod hwn ar dop amrediad fy llais ac yn anodd. I helpu, wnaeth Kieffer rhoi ystod o ymarferion i mi ddefnyddio wrth ymarfer. Un o'r rhain yw gwneud graddfa 5 nodyn lan i'r nodyn yma, symud o sŵn 'aa' i 'ee' ac i 'ng' a'i physio ar y nodyn uwch, ac wedyn trio rhoi vibrato ar y nodyn. Yn dechrau cwpl o nodau lawr o'r B uchel, gweithio fy ffordd lan a hyd yn oed mynd heibio i'r C, er mwyn cadarnhau'r nodyn. Dwi heb eto fod yn llwyddiannus i ychwanegu'r vibrato, ond dwi'n parhau i ymarfer er mwyn cyrraedd y gôl.

I grynhoi, mae fy ngwersi canu wedi bod yn fuddiol iawn, ac wedi datblygu fy sgiliau ac wedi dangos gymaint o dechnegau newydd sydd wedi bod yn ddefnyddiol. Mae Kieffer wedi dweud fy mod i wedi gwella llawer yn yr wythnosau diwethaf, ac mae'r adborth positif ac adeiladol wedi helpu fi i adnabod lle i wella a sut i ymarfer er mwyn gwella. Mae fy llais nawr yn gryfach yn yr hanner uwch, ac wrth weithio ar gymysgu'r lleisiau pen a chest, rydw i wedi adnabod lle mae fy llais medru mynd a sut i'w ddefnyddio'n saff.

Llyfryddiaeth

- Anon., 2021. *Lin-Manuel Miranda and the Making of Hamilton*. [Online]
Available at: <https://bedtimehistorystories.com/the-story-of-lin-manuel-miranda-and-the-making-of-hamilton/>
[Accessed 2024 01 14].
- Anon., 2021. *Lin-Manuel Miranda and the Making of Hamilton*. [Online]
Available at: <https://bedtimehistorystories.com/the-story-of-lin-manuel-miranda-and-the-making-of-hamilton/>
[Accessed 21 01 2024].
- Anon., 2021. *Seven Facts About Singing With a Low Larynx*. [Online]
Available at: <https://www.utahvocalartsacademy.com/post/seven-facts-about-singing-with-a-low-larynx#:~:text=Fact%20%231%3A%20If%20you%20want,at%20all%20times%20during%20phonation.>
[Accessed 25 January 2024].
- Anon., 2022. *8 Vocal Techniques Every Singer Must Know*. [Online]
Available at: <https://www.mi.edu/in-the-know/8-vocal-techniques-every-singer-must-know/>
[Accessed 25 January 2024].
- Anon., 2022. *FUN FACTS FROM BACKSTAGE AT 'HAMILTON': 20 THINGS TO KNOW ABOUT THE NATIONAL TOUR AT THE SAROYAN THEATRE*. [Online]
Available at: <https://munroreview.com/2022/03/31/fun-facts-from-backstage-at-hamilton-20-things-to-know-about-the-national-tour-at-the-saroyan-theatre/>
[Accessed 19 January 2024].
- Anon., 2024. *Sander Jacobs*. [Online]
Available at: <https://www.playbill.com/person/sander-jacobs-vault-0000029697>
[Accessed 19 January 2024].
- Anon., n.d. *Hamilton*. [Online]
Available at: <https://www.theatre crafts.com/pages/home/shows/hamilton/>
[Accessed 19 January 2024].
- Anon., n.d. *Hamilton- Broadway Creative Team*. [Online]
Available at: <https://www.broadwayworld.com/shows/creative.php?showid=331238>
[Accessed 2024].
- Anon., n.d. *Posture in Singing*. [Online]
Available at: <https://completesingers.com/technique/posture-in-singing/>
[Accessed 25 January 2024].
- Cottrell, S., 2021. *Skills for Success : Personal Development and Employability*. 4 ed. s.l.:Macmillan Education UK.
- Joubert, S., 2023. *The Anatomy of a Singer's Mouth*. [Online]
Available at: <https://www.londonsinginginstitute.co.uk/the-anatomy-of-a-singers-mouth/#:~:text=For%20best%20singing%20results%2C%20your,here%20as%20often%20as>

%20possible.

[Accessed 25 January 2024].

Lines, D., 2024. *The Room Where it Happens: In Conversation with 'Hamilton' Scenic Designer David Korins*. [Online]

Available at: <https://www.designlinesmagazine.com/the-room-where-it-happens-in-conversation-with-hamilton-scenic-designer-david-korins/#:~:text=Despite%20Hamilton's%20breadth%2C%20the%20set,around%20an%20inner%20rotating%20floor>

[Accessed 19 January 2024].

MasterClass, 2022. *How to Sing Opera: Explore the Opera Singing Technique*. [Online]

Available at: <https://www.masterclass.com/articles/how-to-sing-opera>

[Accessed 25 January 2024].

MasterClass, 2022. *How to Belt When Singing: 4 Belting Exercises to Try*. [Online]

Available at: <https://www.masterclass.com/articles/belting>

[Accessed 25 January 2024].

McNulty, T., 2020. *32 Facts on Lin-Manuel Miranda's 'Hamilton'*. [Online]

Available at: <https://www.hollywoodinsider.com/hamilton-facts-32-lin-manuel-miranda/>

[Accessed 19 January 2024].

Miranda, L.-M., 2016. *Hamilton - The Revolution*. s.l.:Grand Central Publishing.

Ramsey, M., 2022. *The Ultimate Vibrato Guide: 12 Easy Steps for Singers*. [Online]

Available at: <https://ramseyvoice.com/how-to-sing-vibrato/>

[Accessed 25 January 2024].

Royale, O., n.d. *Essential Skills for Undergraduate Life: the 13 Things You Should Know How to Do Before You Go to University*. [Online]

Available at: <https://www.oxford-royale.com/>

[Accessed 04 11 2023].

Royal, O., n.d. *Essential Skills for Undergraduate Life : the 13 Things You Should Know How to do Before you Go to University*. [Online]

Available at: <https://www.oxford-royale.com/>

[Accessed 04 11 2023].

Studios, E., 2022. *7 Essential Skills for the Creative Industries*. [Online]

Available at: <https://www.escapestudios.ac.uk/news-and-blog/7-essential-skills-for-the-creative-industries/>

[Accessed 4 11 2023].

Studios, E., 2022. *7 Essential Skills for the Creative Industries*. [Online]

Available at: <https://www.escapestudios.ac.uk/news-and-blog/7-essential-skills-for-the-creative-industries/>

[Accessed 04 11 2023].

Sullivan, P., 2016. *DESIGNER DAVID KORINS REVEALS THE INSPIRATION, DETAILS, AND BIG IDEAS BEHIND HIS SET FOR THE BROADWAY PRODUCTION OF HAMILTON*. [Online]

Available at: <https://www.umass.edu/magazine/fall-2016/stage-presence>

[Accessed 19 January 2024].

Sullivan, P., 2016. *DESIGNER DAVID KORINS REVEALS THE INSPIRATION, DETAILS, AND BIG IDEAS BEHIND HIS SET FOR THE BROADWAY PRODUCTION OF HAMILTON..* [Online]

Available at: <https://www.umass.edu/magazine/fall-2016/stage-presence>

[Accessed 21 January 2024].

Wa, R., 2024. *Hamilton: How Color, Lighting, and Costume Design Shaped the Musical*.

[Online]

Available at: <https://soraschools.com/sora-journal/article/romy-wa-hamilton-how-color-lighting-and-costume-design-shaped-the-musical>

[Accessed 19 01 2024].

Wiegand, C., 2023. *Hamilton review – revolutionary musical hits the road with a blazing new cast*. [Online]

Available at: <https://www.theguardian.com/stage/2023/nov/22/hamilton-review-palace-theatre-manchester-tour>

[Accessed 19 January 2024].